Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Gwaith dilynol cyfunol ar archwiliadau ym maes Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf


**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 592A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn rhan o waith a gyflawnwyd/sydd i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall fel unigolion, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, sy'n cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru gan ddefnyddio'r cyfeiriad canlynol: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Cafodd y gwaith ei gyflawni gan Gareth Lewis.

# Cynnwys

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) yn cryfhau trefniadau yn y meysydd yr ydym wedi'u hystyried yn rhan o'r adolygiad hwn, ond mae cynnydd ar sail ein hargymhellion blaenorol wedi bod yn araf.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Asesu cynnydd | 9 |
| Er bod y rhan fwyaf o adrannau wedi defnyddio dull safonol y Bwrdd Iechyd o gynllunio parhad busnes, nid yw'r templed corfforaethol sydd ar gael wedi'i ddilyn yn llawn; nid oes gan yr adran TG gynllun adfer ar ôl trychineb, a chyfyngedig yw'r profion a gynhelir ar gynlluniau adfer ar ôl trychineb a chynlluniau parhad busnes | 9 |
| Caiff meddalwedd, caledwedd a systemau rheoli mynediad priodol eu defnyddio'n rhan o'r broses o greu ffeiliau wrth gefn, ond nid oes polisi ar gael ynghylch creu ffeiliau wrth gefn ac nid yw pob gweithdrefn a dull sy'n gysylltiedig â chreu ffeiliau wrth gefn wedi'u cofnodi yn ddigonol | 18 |
| Mae trefniadau llywodraethu Caldicott wedi'u cryfhau ac mae dulliau hyfforddi wedi'u gwella, ond nid yw'r hyfforddiant hwnnw wedi'i gwblhau eto gan rai aelodau perthnasol o staff | 23 |
| Ceir nifer o fentrau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer ansawdd data, sy'n cynnwys rhaglen archwilio ansawdd data, adroddiad blynyddol a chamau i ychwanegu aelodau allweddol o staff, ond mae angen gwella rhai trefniadau llywodraethu | 27 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal nifer o adolygiadau'n flaenorol a fu'n ymdrin ag agweddau ar reoli gwybodaeth a thechnoleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd).
2. Roedd yr adolygiad dilynol hwn yn ceisio ateb y cwestiwn canlynol: **'A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o safbwynt mynd i'r afael â'r materion allweddol a'r argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiadau a'n hadolygiadau blaenorol ynghylch materion sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth a thechnoleg?'**
3. Daethom i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau trefniadau yn y meysydd yr ydym wedi'u hystyried yn rhan o'r adolygiad hwn ond bod cynnydd ar sail ein hargymhellion blaenorol wedi bod yn araf.
4. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi casgliadau allweddol yr adolygiadau blaenorol, a'r sefyllfa bresennol.

Arddangosyn 1: Casgliadau allweddol yr adolygiadau blaenorol o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), a'r sefyllfa bresennol

| Enw a dyddiad yr adolygiad | Casgliadau allweddol o waith blaenorol | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|
| Trefniadau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (Mawrth 2012, 202A2012) | Er bod adrannau wedi nodi ffyrdd y byddent yn cynnal gwasanaethau clinigol pe bai TGCh yn methu, nid yw'r cynlluniau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb ym maes TGCh yn cael eu cofnodi na'u profi'n ddigonol ac ni chreffir yn ddigonol arnynt. | Er bod y rhan fwyaf o adrannau wedi defnyddio dull safonol y Bwrdd Iechyd o gynllunio parhad busnes, nid yw'r templed corfforaethol sydd ar gael wedi'i ddilyn yn llawn; nid oes gan yr adran TG gynllun adfer ar ôl trychineb, a chyfyngedig yw'r profion a gynhelir ar gynlluniau adfer ar ôl trychineb a chynlluniau parhad busnes. |
| Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer creu copïau wrth gefn o wybodaeth (Tachwedd 2013, 616A2013) | Mae'r trefniadau ar gyfer creu ffeiliau wrth gefn yn dal i gael eu datblygu ac mae lle i'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r trefniadau hynny. Dim ond rhai o'r systemau a ddisgwylir ar gyfer rheoli ffeiliau wrth gefn sydd ar waith i sicrhau bod y ffeiliau hynny'n gyflawn a bod modd eu defnyddio i adfer systemau TG allweddol. | Caiff meddalwedd, caledwedd a systemau rheoli mynediad priodol eu defnyddio'n rhan o'r broses o greu ffeiliau wrth gefn, ond nid oes polisi ar gael ynghylch creu ffeiliau wrth gefn ac nid yw pob gweithdrefn a dull sy'n gysylltiedig â chreu ffeiliau wrth gefn wedi'u cofnodi yn ddigonol. |

| Enw a dyddiad yr adolygiad | Casgliadau allweddol o waith blaenorol | Y sefyllfa bresennol |
|---|---|---|
| Caldicott – Canfyddiadau allweddol asesiad strwythuredig 2012 (Rhagfyr 2012) ac Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013) | Yn gyffredinol mae'r trefniadau Caldicott yn ymddangos yn ddigonol ond mae angen gwneud rhagor o waith mewn rhai meysydd. | Mae trefniadau llywodraethu Caldicott wedi'u cryfhau ac mae dulliau hyfforddi wedi'u gwella, ond nid yw'r hyfforddiant hwnnw wedi'i gwblhau eto gan rai aelodau perthnasol o staff. |
| Ansawdd Data – Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013) | Ni chafwyd sicrwydd yn dilyn ein hadolygiad o ansawdd data yn 2012. | Ceir nifer o fentrau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer ansawdd data, sy'n cynnwys rhaglen archwilio ansawdd data, adroddiad blynyddol a chamau i ychwanegu aelodau allweddol o staff, ond mae angen gwella rhai trefniadau llywodraethu. |

**5.** Mae canfyddiadau eraill a ddaeth i'r amlwg wrth gwblhau'r adolygiad hwn yn cynnwys y canlynol:

- Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth TGCh a gymeradwywyd. Ceir rhai cynlluniau i greu strategaeth gyda help contractwyr allanol ond, heb strategaeth TGCh y cytunwyd arni, nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddim i lywio'n ffurfiol ei bolisïau TGCh, ei strwythur llywodraethu a'i benderfyniadau ynghylch datblygu seilwaith.
- Er bod trefniadau ar waith i olrhain a monitro cynnydd ar sail argymhellion archwiliadau diweddar Swyddfa Archwilio Cymru, nid yw'r argymhellion ynghylch rheoli gwybodaeth a thechnoleg wedi'u cynnwys. Nid yw'n glir sut y gall y Bwrdd Iechyd fod yn hyderus bod archwiliadau'n cael eu hystyried yn briodol ac y gweithredir yn briodol arnynt er mwyn hwyluso gwelliant pellach.

# Argymhellion

**6.** Dylai'r Bwrdd Iechyd barhau i weithredu unrhyw argymhellion sy'n weddill a nodwyd yn ein hadroddiadau blaenorol. Caiff yr argymhellion hynny eu hailadrodd isod ochr yn ochr ag argymhellion newydd a wnaed gennym o ganlyniad i'n hadolygiad dilynol.

| | |
|---|---|
| **Trefniadau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ym maes TGCh (Mawrth 2012, 202A2012)** | |
| A1 | Datblygu cynlluniau parhad busnes, yn unol â'r set safonol yn y cynllun parhad busnes sydd ar ffurf templed corfforaethol, ar gyfer yr adrannau clinigol allweddol a nodir yn Arddangosyn 1 (yr adroddiad gwreiddiol, sef yr Adran Radioleg, yr Uned Therapi Dwys, y Fferyllfa, yr Adran Batholeg, yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys, yr Adran Theatrau a'r Adran TGCh) a sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn bodoli ar gyfer pob adran glinigol ac anghlinigol arall. |
| A2 | Datblygu cynllun parhad busnes ar gyfer yr adran TGCh, sicrhau bod uwch-swyddogion yn ei gymeradwyo, a'i adolygu'n rheolaidd, ar sail asesiad risg cynhwysfawr a chynllun parhad busnes y Bwrdd Iechyd sydd ar ffurf templed. Dylai'r cynllun gynnwys yr holl risgiau sy'n effeithio ar allu'r adran i ddarparu cymorth parhaus i seilwaith a systemau TGCh y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys lefelau staffio. |
| A3 | Cyflwyno trefniadau i ystyried materion ar lefel drawsadrannol a safle, sy'n ymwneud â pharhad busnes. |
| A4 | Cynnal profion yn rheolaidd ar gynlluniau parhad busnes er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu fel y bwriadwyd, a chynnig cymorth digonol i ddarpariaeth barhaus o ran gwasanaethau clinigol o fewn adrannau ac ar draws adrannau. |
| A5 | Ar ôl cynnal profion ar gynlluniau parhad busnes a gweithdrefnau anawtomataidd, nodi'r modd y byddai defnyddio prosesau anawtomataidd i lywio gwaith cynllunio parhad yn y dyfodol yn effeithio ar ansawdd, cost ac amseroldeb darpariaeth o ran gwasanaethau clinigol. |
| A6 | Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu parhad busnes drwy waith cyfathrebu a thrwy hyfforddiant i reolwyr perthnasol, clinigwyr ac aelodau eraill o staff a sicrhau y ceir dealltwriaeth glir o'r gwahaniaeth rhwng cynlluniau parhad busnes a chynlluniau adfer ar ôl trychineb. |
| A7 | Sefydlu trefniadau ffurfiol i adolygu cynlluniau parhad busnes ac asesiadau risg er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysfawr, yn gyson ac yn briodol i'r angen o ran busnes. |

A8 Gwella'r cynlluniau adfer ar ôl trychineb presennol ym maes TGCh ar gyfer pob un o'r systemau a adolygwyd, systemau allweddol eraill a'r seilwaith TGCh er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol a'u bod yn bodloni'r gofynion sylfaenol canlynol:

- dylai'r cynlluniau gael eu cofnodi a'u hysgrifennu mewn iaith syml, er mwyn iddynt fod yn ddealladwy i bawb y gallai fod arnynt angen eu defnyddio;
- dylai'r cyfrifoldebau am y cynlluniau adfer ar ôl trychineb gael eu nodi'n glir;
- dylid nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am bob swyddogaeth yn y cynllun;
- dylai manylion cyswllt fod yn amlwg;
- dylai'r cynlluniau gynnwys esboniad cam wrth gam o'r opsiwn adfer systemau;
- dylai'r amryw adnoddau sy'n ofynnol i adfer systemau gael eu nodi'n glir;
- dylai'r cynlluniau gael eu cymeradwyo gan reolwr priodol; a
- dylai'r cynlluniau gael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd a dylai gwybodaeth am drefniadau adolygu a rheoli fersiynau gael ei nodi'n glir ar flaen pob cynllun.

A9 Cynnal profion yn rheolaidd ar bob cynllun adfer ar ôl trychineb ym maes TGCh, ar gyfer y systemau a'r seilwaith, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu fel y bwriadwyd.

A10 Sefydlu a monitro dangosyddion perfformiad clir ar gyfer yr adran, systemau a seilwaith TGCh. Defnyddio canlyniadau'r gwaith monitro perfformiad i lywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer adfer ar ôl trychineb, cynllunio adnoddau TGCh a chynllunio cyfalaf ar gyfer seilwaith a systemau TGCh.

**Argymhelliad newydd ar gyfer 2015**

A1 Diweddaru'r polisi parhad busnes a'r templedi ategol er mwyn:

- adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol cyfredol;
- argymell bod cynlluniau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau gweithredol;
- sicrhau bod trefniadau ynghylch materion ar lefel drawsadrannol a safle sy'n ymwneud â pharhad busnes yn cael eu hystyried pan fydd cynlluniau'n cael eu datblygu a'u diweddaru; ac
- esbonio'n ddigonol y strwythur llywodraethu ar gyfer parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb, a'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn cael sicrwydd yn benodol bod gofynion polisi'n cael eu bodloni.

**Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer creu copïau wrth gefn o wybodaeth (Tachwedd 2013, 616A2013).**

**Argymhellion newydd ar gyfer 2015**

A2 Datblygu polisi ynghylch creu ffeiliau wrth gefn a chytuno ar bolisi o'r fath er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau, dulliau ac arferion cyson ar gyfer creu ffeiliau wrth gefn yn cael eu mabwysiadu ar draws y sefydliad.

A3 Cofnodi gweithdrefnau ar gyfer y canlynol, a sicrhau eu bod ar gael (i aelodau priodol o staff):

- creu ac addasu copïau wrth gefn o ddata, gan gynnwys gwybodaeth am sut i addasu gosodiad y system ar gyfer creu ffeiliau wrth gefn yn awtomataidd; ac
- ymdrin â methiannau neu broblemau sy'n ymwneud â chreu ffeiliau wrth gefn.

| | |
|---|---|
| A4 | Sicrhau bod y dogfennau sy'n ymwneud â chreu copi wrth gefn o gynnwys y gweinydd ac adfer y gweinydd, y cyfeirir atynt yn y cynlluniau adfer ar ôl trychineb, yn bodoli ac yn bodloni anghenion y systemau TG. |

**Caldicott – Canfyddiadau allweddol asesiad strwythuredig 2012 (Rhagfyr 2012) ac Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013)**

**Argymhellion newydd ar gyfer 2015**

| | |
|---|---|
| A5 | Sicrhau bod y Daflen ar Egwyddorion Caldicott yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cyfeirio'n gywir at y Gwarcheidwad Caldicott er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gamddealltwriaeth ymhlith y staff. |
| A6 | Sicrhau bod aelodau priodol o staff yn cwblhau hyfforddiant perthnasol ynghylch Caldicott a'u bod yn cynnal eu gwybodaeth drwy gael hyfforddiant diweddaru rheolaidd. Dylai hynny gael ei fonitro gan y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a dylid adrodd wrth y Grŵp amdano. |

**Ansawdd Data – Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013)**

**Argymhellion newydd ar gyfer 2015**

| | |
|---|---|
| A7 | Sicrhau bod cymariaethau o ran ansawdd data â blynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau blynyddol ynghylch ansawdd data yn y dyfodol. |
| A8 | Sicrhau bod perchnogion asedau gwybodaeth yn unigolion a enwir sy'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau, ac os caiff y cyfrifoldebau eu dyrannu'n ôl swyddi dylent gael eu cofnodi'n ysgrifenedig yn nisgrifiadau swydd yr unigolion dan sylw. |
| A9 | Sicrhau bod y Polisi Ansawdd Data yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i drefniadau gweithredol. Gweithredu trefniadau rheoli fersiynau er mwyn sicrhau eglurder ynghylch y fersiwn gyfredol. Yn ogystal, newid geiriad y polisi i adlewyrchu'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth. |

**Argymhellion newydd ar gyfer 2015 – Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg**

| | |
|---|---|
| A10 | Datblygu Strategaeth TGCh a chytuno arni. |
| A11 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod argymhellion ynghylch TGCh yn rhan o'i system ar gyfer olrhain argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru, yr adroddir yn ei chylch wrth y Pwyllgor Archwilio. |

# Adroddiad manwl

## Asesu cynnydd

7. Mae'r tablau isod yn rhestru argymhellion ein hadolygiadau blaenorol ac yn rhoi ein barn ynghylch a yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn (✓), wedi'i weithredu'n rhannol (✓/×) neu heb ei weithredu (×).

### Er bod y rhan fwyaf o adrannau wedi defnyddio dull safonol y Bwrdd Iechyd o gynllunio parhad busnes, nid yw'r templed corfforaethol sydd ar gael wedi'i ddilyn yn llawn; nid oes gan yr adran TG gynllun adfer ar ôl trychineb, a chyfyngedig yw'r profion a gynhelir ar gynlluniau adfer ar ôl trychineb a chynlluniau parhad busnes

| **Trefniadau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (Mawrth 2012, 202A2012)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Wedi'i weithredu?** | **Argymhelliad** | **Crynodeb o'r cynnydd a wnaed** |
| **Parhad busnes** | | | |
| **A1** | **✓/×** | Datblygu cynlluniau parhad busnes, yn unol â'r set safonol yn y cynllun parhad busnes sydd ar ffurf templed corfforaethol, ar gyfer yr adrannau clinigol allweddol a nodir yn Arddangosyn 1 (yr adroddiad gwreiddiol, sef yr Adran Radioleg, yr Uned Therapi Dwys, y Fferyllfa, yr Adran Batholeg, yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys, yr Adran Theatrau a'r Adran TGCh) a sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn bodoli ar gyfer pob adran glinigol ac anghlinigol arall. | Yn ystod ein gwaith blaenorol, dim ond dwy adran (o blith y rhai a adolygwyd) a oedd â chynlluniau ysgrifenedig ar waith. Erbyn hyn mae cynlluniau parhad busnes ar waith ar gyfer y saith adran, ond nid yw un ohonynt wedi defnyddio'r dull corfforaethol safonol. Mae'r cynlluniau eraill wedi dilyn y dull corfforaethol safonol, ond nid yw pob un ohonynt wedi gwneud defnydd llawn o'r templed sydd ar gael. Er enghraifft, dyma'r canfyddiadau penodol a nodwyd gennym:<br>• Dim ond at fethiannau'n ymwneud ag offer y mae cynllun yr Adran Radioleg yn cyfeirio, ac nid yw'n nodi pwy a ysgogodd ac a gymeradwyodd y ddogfen, pryd y cafodd ei chymeradwyo nac ers pryd y mae'n weithredol.<br>• Dim ond at fethiannau'n ymwneud â systemau TG y mae cynllun yr Uned Therapi Dwys yn cyfeirio, ac nid yw'n defnyddio'r templed corfforaethol. |

| Trefniadau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (Mawrth 2012, 202A2012) | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Wedi'i weithredu?** | **Argymhelliad** | **Crynodeb o'r cynnydd a wnaed** |
| **Parhad busnes** | | | |
| **A1** | ✓/✗ | | • Mae cynllun y Fferyllfa yn nodi ei fod yn weithredol ers mis Mehefin 2015, ond nid yw'n cynnwys dyddiad cymeradwyo na threfniadau rheoli fersiynau. Yn ogystal, nid yw'n cyfeirio at fethiannau'n ymwneud â systemau TG.<br>• Nid yw cynllun yr Adran Batholeg yn cynnwys dadansoddiad o'r effaith ar fusnes nac unrhyw gardiau gweithredu.<br>• Er bod cynllun yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys (meddygaeth) fel pe bai'n dilyn y templed corfforaethol, nid yw wedi'i gymeradwyo er bod dyddiad 2012 ar yr enw ffeil electronig. Yn ogystal, nid oes gan yr adran gynlluniau penodol ar gyfer pob safle.<br>• Nid oes gan gynllun yr Adran Theatrau ddyddiad cymeradwyo na dyddiad gweithredu.<br>• Mae gan yr Adran TGCh gynllun sydd wedi'i gymeradwyo ac sy'n weithredol ers mis Medi 2013 ac mae'n dilyn y templed corfforaethol, ond nid yw'n cyfeirio at wrthod mynediad i safleoedd. Yn ogystal, nid yw'n cyfeirio at Ganolfan Ddata Blaenafon a ychwanegwyd yn ddiweddar at seilwaith TGCh y Bwrdd Iechyd.<br>Mae gan y Bwrdd Iechyd ddogfen sy'n dwyn y teitl 'BCP template draft' a dogfen sy'n dwyn y teitl 'Template for developing a business continuity plan' (nodiadau cyfarwyddyd) i gynorthwyo rheolwyr i greu eu cynlluniau parhad busnes adrannol. Fodd bynnag, mae ein hadolygiad o'r saith cynllun parhad busnes yn dangos bod y graddau y cydymffurfir â'r templed yn amrywio. Ymddengys mai dogfennau cynghori ydynt yn hytrach na dogfennau y mae'n rhaid i adrannau eu dilyn. |

| Trefniadau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (Mawrth 2012, 202A2012) | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Wedi'i weithredu?** | **Argymhelliad** | **Crynodeb o'r cynnydd a wnaed** |
| **A2** | ✓/✗ | Datblygu cynllun parhad busnes ar gyfer yr adran TGCh, sicrhau bod uwch-swyddogion yn ei gymeradwyo, a'i adolygu'n rheolaidd, ar sail asesiad risg cynhwysfawr a chynllun parhad busnes y Bwrdd Iechyd sydd ar ffurf templed. Dylai'r cynllun gynnwys yr holl risgiau sy'n effeithio ar allu'r adran i ddarparu cymorth parhaus i seilwaith a systemau TGCh y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys lefelau staffio. | Mae cynllun parhad busnes ar waith ar gyfer yr adran TGCh, sydd wedi'i gymeradwyo ac sy'n weithredol ers mis Medi 2013, ac mae'n dilyn y templed corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys yr holl risgiau sy'n effeithio ar allu'r adran i ddarparu cymorth parhaus i seilwaith a systemau TGCh y Bwrdd Iechyd, ee gwrthod mynediad i safleoedd. Felly, nid yw'n seiliedig ar asesiad risg cynhwysfawr. Nid yw'r cynllun wedi'i adolygu'n ddiweddar ac nid yw'n ymgorffori newidiadau diweddar i'r seilwaith TGCh, ee y gwaith o ychwanegu cyfleusterau yng Nghanolfan Ddata Blaenafon.<br>Nid yw'r ddogfen yn datgan yn benodol pwy a'i cymeradwyodd. Cafodd ei chymeradwyo gan yr adran TGCh, ond nid yw'n glir pwy'n benodol yn yr adran a oedd yn rhan o'r broses gymeradwyo, a lefel eu cyfrifoldebau. |
| **A3** | ✗ | Cyflwyno trefniadau i ystyried materion ar lefel drawsadrannol a safle, sy'n ymwneud â pharhad busnes. | Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud o safbwynt cyflwyno trefniadau i ystyried cynlluniau parhad busnes ar lefel drawsadrannol a safle. Fel yn achos ein hadolygiad gwreiddiol yn 2012, prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod cynlluniau parhad busnes wedi'u hystyried ar lefel drawsadrannol, ac mae adrannau'n parhau i weithio ar eu pen eu hunain. Caiff hynny ei adlewyrchu yn y templedi ar gyfer polisi a chanllawiau'n ymwneud â pharhad busnes. |

| Trefniadau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (Mawrth 2012, 202A2012) | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Wedi'i weithredu?** | **Argymhelliad** | **Crynodeb o'r cynnydd a wnaed** |
| **A4** | ✗ | Cynnal profion yn rheolaidd ar gynlluniau parhad busnes er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu fel y bwriadwyd, a chynnig cymorth digonol i ddarpariaeth barhaus o ran gwasanaethau clinigol o fewn adrannau ac ar draws adrannau. | Nid oes profion rheolaidd a chynhwysfawr yn cael eu cynnal ar gynlluniau parhad busnes yn y saith adran a adolygwyd gennym. Mae polisi'r Bwrdd Iechyd ynghylch parhad busnes yn datgan na all cynlluniau parhad busnes fod yn llwyddiannus oni bai eu bod wedi'u rhannu â'r staff, bod profion wedi'u cynnal arnynt a'u bod wedi'u hymarfer. Dywed hefyd mai cyfrifoldeb y rheolwr sy'n 'berchen' ar y cynllun yw sicrhau bod pob aelod o staff a allai ei ddefnyddio'n cael eu hyfforddi, ac y bydd cynlluniau corfforaethol yn cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd ac y bydd y staff yn cael eu hyfforddi wedyn fel y bo angen. Er hynny, gwelsom mai cyfyngedig yw'r gwaith profi sy'n digwydd ac, os yw'n digwydd, mae'n anffurfiol ac nid yw'n ymdrin â'r ystod lawn o senarios. Er enghraifft, nododd yr Adran Batholeg gyfnodau annisgwyl pan nad oedd systemau TG yn gweithio, a arweiniodd at yr angen i weithredu elfennau o gynllun yr adran. Mewn gwirionedd, yr unig beth y mae hynny'n ei brofi yw'r cyfnodau pan nad yw systemau'n gweithio, yn hytrach nag elfennau megis achosion o wrthod mynediad i safleoedd, neu brinder staff difrifol.<br>Nid yw'r lefel hon o waith profi'n ddigonol i sicrhau bod cynlluniau'n gweithredu fel y bwriadwyd ac y byddant yn cynnig cymorth digonol i ddarpariaeth barhaus o ran gwasanaethau clinigol o fewn adrannau ac ar draws adrannau. |
| **A5** | ✗ | Ar ôl cynnal profion ar gynlluniau parhad busnes a gweithdrefnau anawtomataidd, nodi'r modd y byddai defnyddio prosesau anawtomataidd i lywio gwaith cynllunio parhad yn y dyfodol yn effeithio ar ansawdd, cost ac amseroldeb darpariaeth o ran gwasanaethau clinigol. | Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud o safbwynt yr argymhelliad hwn. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth yn ystod yr adolygiad dilynol hwn i awgrymu bod effeithiau posibl o'r fath wedi'u hadnabod.<br>Mae peidio â chynnal profion cynhwysfawr yn rheolaidd ar gynlluniau parhad busnes yn llesteirio ymhellach allu'r adran i wneud cynnydd o safbwynt yr argymhelliad hwn. |

| Trefniadau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (Mawrth 2012, 202A2012) | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Wedi'i weithredu?** | **Argymhelliad** | **Crynodeb o'r cynnydd a wnaed** |
| **A6** | ✓/✗ | Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu parhad busnes drwy waith cyfathrebu a thrwy hyfforddiant i reolwyr perthnasol, clinigwyr ac aelodau eraill o staff a sicrhau y ceir dealltwriaeth glir o'r gwahaniaeth rhwng cynlluniau parhad busnes a chynlluniau adfer ar ôl trychineb. | Er bod rhywfaint o arweiniad ar gael ynghylch datblygu cynlluniau parhad busnes, ni chaiff trefniadau llywodraethu eu nodi na'u hatgyfnerthu.<br>Nid oes dull clir o graffu a rhoi sicrwydd ynghylch parhad busnes. Mae'r polisi ynghylch parhad busnes yn cyfeirio at gyfrifoldebau rheolwyr, ond nid yw'n cyfeirio'n benodol at sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn cael sicrwydd mewn gwirionedd ynghylch parhad busnes.<br>Mae'r polisi ynghylch parhad busnes yn nodi mai'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol yn gyffredinol am reoli parhad busnes, gyda chymorth cyfarwyddwyr arweiniol. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol yw'r cyfarwyddwr arweiniol enwebedig ar gyfer cydlynu'r gwaith o reoli parhad busnes yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r Cyfarwyddwyr yn atebol i'r Prif Weithredwr am sicrhau bod y polisi ynghylch parhad busnes yn cael ei weithredu yn eu Huned. Yn ôl y polisi, o'r strwythur hwn y mae'r Bwrdd Iechyd yn cael sicrwydd priodol.<br>Ceir anghysondebau yn y cynlluniau parhad busnes a adolygwyd gennym (caiff yr anghysondebau eu hesbonio yn yr adran nesaf), ac mae hynny'n codi amheuon ynghylch effeithiolrwydd y broses ar gyfer cael sicrwydd. Oherwydd nad oes gan y Bwrdd Iechyd set gyson o gynlluniau o hyd, ni allwn fod yn sicr bod ganddo ddealltwriaeth briodol o ddigonolrwydd gwirioneddol cynlluniau parhad busnes yn y Bwrdd Iechyd. Yn ogystal, nododd ein hadolygiad nad yw bob amser yn glir pwy sy'n berchen ar y cynlluniau.<br>Mewn achosion lle mae'r gwahaniaeth rhwng gwaith adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes yn bwysig, hy yn achos TGCh, dangosodd yr aelodau o staff a gafodd eu cyfweld gennym ddealltwriaeth briodol o'r gwahaniaeth. |

| Trefniadau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (Mawrth 2012, 202A2012) | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Wedi'i weithredu?** | **Argymhelliad** | **Crynodeb o'r cynnydd a wnaed** |
| **A7** | ✓/✗ | Sefydlu trefniadau ffurfiol i adolygu cynlluniau parhad busnes ac asesiadau risg er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysfawr, yn gyson ac yn briodol i'r angen o ran busnes. | Mae'n arfer da adolygu cynlluniau parhad busnes bob blwyddyn. Mae polisi'r Bwrdd Iechyd ynghylch parhad busnes yn mynnu bod cynlluniau ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu o leiaf bob tair blynedd, ond ni chaiff hynny ei weithredu ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>Er enghraifft, o blith y saith cynllun a adolygwyd gennym, nid yw cynlluniau adrannol yr Adran Theatrau a'r Adran Radioleg yn cynnwys dyddiadau cymeradwyo na gweithredu. Yn ogystal, er bod cynllun yr Adran TGCh yn weithredol ers 2013, mae angen ei ddiweddaru er mwyn ystyried Canolfan Ddata Blaenafon. Os nad yw cynlluniau wedi'u cymeradwyo neu os ydynt wedi dyddio, mae'n bosibl na fyddant yn diwallu anghenion o ran busnes.<br>Yn ogystal, mae angen diweddaru'r ddogfen sy'n dwyn y teitl 'Template for developing a business continuity plan' (ei ddyddiad adolygu ar hyn o bryd yw Gorffennaf 2013), ac ar y cyd â'r polisi ynghylch parhad busnes (a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2013) mae'n cyfeirio at safonau sydd wedi dyddio.<br>Mae'r dogfennau'n cyfeirio at Safon Brydeinig 25999 ar gyfer rheoli parhad busnes, ond mae'r Safon honno wedi'i disodli ers hynny gan safon ISO22301 (Rheoli Parhad Busnes) a safon ISO 22313 (Diogelwch Cymdeithasol — Systemau Rheoli Parhad Busnes).<br>Mae'r polisi hefyd yn datgan y gallai fod angen cynnal adolygiad yn ystod y cylch tair blynedd oherwydd canlyniad proses ôl-drafod yn dilyn digwyddiad, a dynnodd sylw at broblemau neu at newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau.<br>Er bod y templed yn datgan y dylai cynlluniau hefyd gael eu diweddaru cyn pen y tair blynedd er mwyn adlewyrchu newidiadau gweithredol, nid yw'r polisi yn datgan hynny. |

| Trefniadau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (Mawrth 2012, 202A2012) | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Wedi'i weithredu?** | **Argymhelliad** | **Crynodeb o'r cynnydd a wnaed** |
| **A7** | ✓/✗ | | Rôl gynghori yw rôl y Rheolwr Argyfyngau Sifil Posibl o safbwynt cynllunio parhad busnes, ac mae'n golygu hysbysu adrannau pan fydd yn bryd i'w cynlluniau gael eu hadolygu, ac awgrymu diwygiadau os oes angen. Cyfrifoldeb yr adrannau yw penderfynu sut y caiff cynlluniau ac asesiadau risg eu rheoli a'u cynnal. Cawsom wybod bod Cyfarfodydd Busnes Clinigol a Chorfforaethol yn cael eu cynnal ar draws y sefydliad a'u bod yn cael eu defnyddio ar gyfer pob mater gweithredol, ond nad oes yn rhaid iddynt ddilyn unrhyw awgrymiadau a wneir gan y Rheolwr Argyfyngau Sifil Posibl. |
| **Adfer ar ôl trychineb** | | | |
| **A8** | ✓/✗ | Gwella'r cynlluniau adfer ar ôl trychineb presennol ym maes TGCh ar gyfer pob un o'r systemau a adolygwyd (Telepath, PACS, ICIP (sef ICCA erbyn hyn), RADIS, TOMS, PAS A&E ac EDS (y fferyllfa), systemau allweddol eraill a'r seilwaith TGCh er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol a'u bod yn bodloni'r gofynion sylfaenol canlynol:<br>• dylai'r cynlluniau gael eu cofnodi a'u hysgrifennu mewn iaith syml, er mwyn iddynt fod yn ddealladwy i bawb y gallai fod arnynt angen eu defnyddio; | Mae cynlluniau adfer ar ôl trychineb ar waith ar gyfer Telepath (LIMS), ICCA, RADISII, PACS, TOMS, PAS A&E (Myrddin) a'r Fferyllfa. O blith y systemau hyn, dim ond dwy (Telepath a TOMS) a gynorthwyir yn llawn gan y Bwrdd Iechyd. Mae'r gweddill yn dibynnu ar gymorth gan ddarparwyr allanol. Er bod cynlluniau adfer ar ôl trychineb ar waith ar gyfer y systemau hyn, nid ydynt i gyd yn bodloni'r gofynion sylfaenol a nodwyd yn ein hargymhelliad.<br>Dyma'r canfyddiadau penodol a nodwyd gennym:<br>• Nid oes cynllun adfer ar ôl trychineb ar waith ar gyfer y seilwaith TGCh.<br>• Nid oes gan yr Adran Theatrau a'r Adran Batholeg esboniadau cam wrth gam penodol o'r opsiynau a'r gweithdrefnau adfer. Mae gan gynlluniau systemau eraill opsiynau adfer, ond yr unig beth y maent yn ei nodi yw mai cyflenwr y system fyddai'n gyfrifol am adfer y system; nid ydynt yn esbonio sut y byddent yn gwneud hynny. Mae hynny'n dderbyniol; ond dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn cael sicrwydd digonol gan y cyflenwr (ee Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru) bod ganddo weithdrefnau adfer priodol ar waith. |

| Trefniadau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (Mawrth 2012, 202A2012) | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Wedi'i weithredu?** | **Argymhelliad** | **Crynodeb o'r cynnydd a wnaed** |
| **Adfer ar ôl trychineb** | | | |
| **A8** | ✓/✗ | • dylai'r cyfrifoldebau am y cynlluniau adfer ar ôl trychineb gael eu nodi'n glir;<br>• dylid nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am bob swyddogaeth yn y cynllun;<br>• dylai manylion cyswllt fod yn amlwg;<br>• dylai'r cynlluniau gynnwys esboniad cam wrth gam o'r opsiwn adfer systemau;<br>• dylai'r amryw adnoddau sy'n ofynnol i adfer systemau gael eu nodi'n glir;<br>• dylai'r cynlluniau gael eu cymeradwyo gan reolwr priodol; a<br>• dylai'r cynlluniau gael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd a dylai gwybodaeth am drefniadau adolygu a rheoli fersiynau gael ei nodi'n glir ar flaen pob cynllun. | • Mae dogfen cynllun adfer ar ôl trychineb y Bwrdd Iechyd ei hun ar gyfer PACS yn wag ar gyfer y meysydd canlynol: 'Ysgogwyd gan', 'Cymeradwywyd gan', 'Dyddiad cymeradwyo', 'Rhif y fersiwn' a 'Dyddiad gweithredu'. Yn ogystal, ceir gweithdrefn adfer ar ôl trychineb a ysgrifennwyd gan FUJIFILM sy'n cynnal yr holl ffeiliau wrth gefn ac sy'n cynorthwyo'r system.<br>• Cafodd cynllun yr Adran Theatrau ei ysgogi a'i gymeradwyo gan yr un person.<br>Er bod y staff TGCh a gafodd eu cyfweld yn gwybod sut y byddent yn ymateb pe bai trychineb yn digwydd, ni all y Bwrdd Iechyd fod yn hollol sicr y byddai modd adfer systemau pwysig fel y bo angen, oni bai bod ganddo weithdrefnau adfer ysgrifenedig ar gyfer pob system benodol.<br>Yn ogystal, nid oes cynllun adfer ar ôl trychineb ar gael ar gyfer TG yn gyffredinol, sy'n blaenoriaethu'r holl systemau TG er mwyn ei gwneud yn bosibl i waith adfer gael ei gyflawni mewn modd cydlynol ar sail risg, pe bai trychineb yn digwydd. Pe bai trychineb mawr yn digwydd lle mae llawer o systemau'n methu, ni all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr y byddai modd adfer ei systemau yn briodol ac yn amserol.<br>Nid ydym wedi adolygu unrhyw gontractau cymorth rhwng y Bwrdd Iechyd a darparwyr trydydd parti; fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gael sicrwydd y byddai'r prosesau adfer ar gyfer y systemau hynny'n bodloni anghenion o ran busnes, pe bai trychineb yn digwydd. |

| Trefniadau ar gyfer Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (Mawrth 2012, 202A2012) | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Wedi'i weithredu?** | **Argymhelliad** | **Crynodeb o'r cynnydd a wnaed** |
| **A9** | ✗ | Cynnal profion yn rheolaidd ar bob cynllun adfer ar ôl trychineb ym maes TGCh, ar gyfer y systemau a'r seilwaith, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu fel y bwriadwyd. | Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud. Nid oes profion rheolaidd, ffurfiol a chadarn yn cael eu cynnal ar bob cynllun adfer ar ôl trychineb.<br>Canfu ein hadolygiad fod profion cynlluniau adfer ar ôl trychineb wedi'u cyfyngu i drefniadau ailosod systemau'n unig, a bod y profion hynny'n cael eu cynnal yn unswydd er mwyn ymateb i ddigwyddiadau, yn rhan o weithgareddau dyddiol os bydd system yn methu. Caiff achosion o ailosod systemau, logiau creu ffeiliau wrth gefn a methiannau eu cofnodi, ond hyd yn oed os cofnodir pob achos o ailosod systemau a phob methiant, nid yw hynny'n fodd i gofnodi systemau nad ydynt wedi profi unrhyw broblemau ac nad ydynt felly wedi bod drwy unrhyw fethiannau, gweithdrefnau adfer neu brosesau ailosod systemau blaenorol/rheolaidd.<br>Pe bai un o'r systemau hyn yn methu, nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw sicrwydd y byddent yn gallu cael eu hailosod yn ddigonol.<br>Pe bai'r trychineb yn un mwy difrifol, hy pe bai safle/lleoliad yn cael ei golli, byddai dibynnu ar y gallu i ailosod systemau'n syml yn annigonol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gael sicrwydd bod modd i systemau gael eu hadfer yn dilyn pob digwyddiad posibl. |
| **A10** | ✗ | Sefydlu a monitro dangosyddion perfformiad clir ar gyfer yr adran, systemau a seilwaith TGCh. Defnyddio canlyniadau'r gwaith monitro perfformiad i lywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer adfer ar ôl trychineb, cynllunio adnoddau TGCh a chynllunio cyfalaf ar gyfer seilwaith a systemau TGCh. | Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud o safbwynt yr argymhelliad hwn. Er i ni nodi nifer o ddangosyddion yn ein hadroddiad ar gyfer 2012, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu unrhyw fesurau i reoli a gwella perfformiad yr adran TGCh. |

## Caiff meddalwedd, caledwedd a systemau rheoli mynediad priodol eu defnyddio'n rhan o'r broses o greu ffeiliau wrth gefn, ond nid oes polisi ar gael ynghylch creu ffeiliau wrth gefn ac nid yw pob gweithdrefn a dull sy'n gysylltiedig â chreu ffeiliau wrth gefn wedi'u cofnodi yn ddigonol

**Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer creu copïau wrth gefn o wybodaeth (Tachwedd 2013, 616A2013)**

**Yn 2013 daethom i'r casgliad ei bod yn ymddangos bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau annigonol neu rannol ar waith i sicrhau bod copïau wrth gefn o ddata'n cael eu creu**

| Meysydd a adolygwyd | Canfyddiadau |
| --- | --- |
| A oes gan y Bwrdd Iechyd bolisi effeithiol ynghylch creu ffeiliau wrth gefn, yn ogystal â dealltwriaeth drylwyr o'i systemau TG a'r sawl sy'n gyfrifol amdanynt? | **Er bod y Bwrdd Iechyd wrthi'n cofnodi ei systemau a chyfrifoldebau, nid oes polisi ar waith ynghylch creu ffeiliau wrth gefn.**<br>**Catalog**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i gofnodi ei systemau a'i wasanaethau TG. Ceir catalog drafft o wasanaethau TG y bwriedir iddo amlinellu'r gwasanaethau y mae'r Adran TGCh yn eu darparu i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r catalog yn amlinellu'r gwasanaethau TGCh y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cael, a cheir atodiadau ar gyfer pob system adrannol. Bwriad pob cofnod yw disgrifio'r gwasanaeth TGCh a ddarperir o safbwynt defnyddiwr a disgrifio pryd y mae ar gael, beth a gaiff ei gynnwys a sut y caiff lefel y gwasanaeth ei mesur. Mae hefyd yn rhestru'r systemau clinigol a gaiff gymorth ar alwad, a'r systemau nad ydynt yn cael cymorth o'r fath.<br>Yn benodol mae'r ddogfen yn nodi'r manylion canlynol ar gyfer pob system:<br>• Enw'r gwasanaeth<br>• Disgrifiad o'r gwasanaeth<br>• Yr elfennau y mae'r gwasanaeth yn eu cynnwys<br>• Yr elfennau nad yw'r gwasanaeth yn eu cynnwys<br>• Y graddau y mae'r gwasanaeth ar gael<br>• Y graddau y mae cymorth ar gael<br>• Y modd y caiff y gwasanaeth ei fesur<br>• Perchennog y gwasanaeth |

| Trosolwg o’r trefniadau ar gyfer creu copïau wrth gefn o wybodaeth (Tachwedd 2013, 616A2013)<br>Yn 2013 daethom i’r casgliad ei bod yn ymddangos bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau annigonol neu rannol ar waith i sicrhau bod copïau wrth gefn o ddata’n cael eu creu | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| A oes gan y Bwrdd Iechyd bolisi effeithiol ynghylch creu ffeiliau wrth gefn, yn ogystal â dealltwriaeth drylwyr o’i systemau TG a’r sawl sy’n gyfrifol amdanynt? | • Y defnyddwyr<br>• Cyfrifoldebau’r defnyddwyr<br>• Pwysigrwydd y gwasanaeth<br>• Yr hyn y mae’r gwasanaeth yn ddibynnol arno/Yr hyn sy’n ddibynnol ar y gwasanaeth<br>Ar hyn o bryd, dim ond systemau clinigol ar alwad y mae’r catalog gwasanaethau’n eu cynnwys, ac mae gwaith ar y gweill i gynnwys systemau clinigol eraill yn ogystal ag elfennau o’r seilwaith yn y dyfodol. Bwriedir cwblhau’r ddogfen erbyn mis Hydref 2015 a’i chyhoeddi ar gyfleuster SharePoint y Bwrdd Iechyd. Gwnaethom nodi nad yw system TOMS yr Adran Theatrau wedi’i chynnwys yn y copi a gawsom ni o’r catalog gwasanaethau.<br>**Polisi ynghylch creu ffeiliau wrth gefn**<br>Er bod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn cofnodi ei systemau clinigol, a’r argaeledd a’r gwasanaethau TG sy’n ofynnol ar gyfer pob system, nid oes ganddo bolisi ysgrifenedig ynghylch creu ffeiliau wrth gefn. Heb bolisi ysgrifenedig y cytunwyd arno, nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddim i lywio gweithdrefnau, dulliau ac arferion cyson ar gyfer creu ffeiliau wrth gefn ar draws y sefydliad**.**<br>**Cofrestr asedau**<br>Mae cofrestr newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ar gyfer asedau gwybodaeth, a bwriedir cwblhau fersiwn ddrafft erbyn diwedd mis Tachwedd 2015. Mae’r Pennaeth Systemau Clinigol yn creu ffurflenni casglu data ar gyfer pob un o systemau clinigol y Bwrdd Iechyd. Mae’r ffurflenni yn cynnwys manylion y perchnogion gwybodaeth ar gyfer pob system TG. Fodd bynnag, fel y nodir yn fanylach yn yr adran ar ansawdd data sydd yn yr adroddiad hwn, ni chaiff y cyfrifoldebau hynny eu pennu i unigolion ar gyfer pob system. |

| **Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer creu copïau wrth gefn o wybodaeth (Tachwedd 2013, 616A2013)**<br>**Yn 2013 daethom i'r casgliad ei bod yn ymddangos bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau annigonol neu rannol ar waith i sicrhau bod copïau wrth gefn o ddata'n cael eu creu** | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| A oes trefniadau effeithiol ar waith i greu copïau wrth gefn o wybodaeth? | **Nid oes gan y Bwrdd Iechyd weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer creu ffeiliau wrth gefn yng nghyswllt pob un o'i systemau TG allweddol/pwysig; felly, mae'n bosibl nad yw'r trefniadau sydd ar waith i greu copïau wrth gefn o wybodaeth mor effeithiol ag y dylent fod.**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio meddalwedd priodol i greu ffeiliau wrth gefn ar gyfer y systemau clinigol sy'n rhan o'i gylch gorchwyl. Mae'r meddalwedd yn hysbysu'r tîm gweinyddion TGCh ynghylch yr angen i newid tâp, yn darparu crynodebau wythnosol o berfformiad y trefniadau creu ffeiliau wrth gefn, ac yn hysbysu'r tîm ynghylch unrhyw fethiannau (gan gynnwys esboniadau).<br>Ar hyn o bryd, mae'r staff yn sylwi ar broblemau ar hap, sy'n golygu bod perygl y gallai problemau fod yn cael eu hanwybyddu oherwydd bod pobl yn meddwl eu bod yn cael sylw gan rywun arall. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, mae'r Rheolwr Gweinyddion wrthi'n llunio rota staff er mwyn cynnal gwiriadau dyddiol i sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael sylw priodol.<br>Ni cheir unrhyw weithdrefnau ysgrifenedig sy'n nodi beth y dylid ei wneud pe bai'r trefniadau creu ffeiliau wrth gefn yn methu, hy sut i'w hailgyflunio/eu hail-greu'n llwyddiannus.<br>O safbwynt gweithdrefnau creu ffeiliau wrth gefn, mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar y ffaith bod y system eisoes wedi'i chyflunio i greu ffeiliau wrth gefn, ac mae'r unig weithdrefnau ysgrifenedig sydd ar gael yn ymwneud â mynd â'r ffeiliau wrth gefn oddi ar y safle a chylchdroi tapiau. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ganddo'r gallu i ddiwygio gweithdrefnau awtomataidd ar gyfer creu ffeiliau wrth gefn, pe bai angen iddo wneud hynny, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle nad yw'r staff TGCh rheolaidd ar gael. Dylai'r gweithdrefnau hynny gael eu cofnodi'n ddigonol.<br>Mae systemau rheoli ar waith i ganiatáu i staff/cyflenwyr gael gafael ar ffeiliau wrth gefn fel y bo angen (ac maent yn cynnwys y drefn briodol ar gyfer hawliau gweinyddu systemau creu ffeiliau wrth gefn). Mae hynny hefyd yn lleihau'r perygl y gallai ffeiliau gael eu dileu neu'u newid yn ddamweiniol.<br>Yn rhan o'r adolygiad hwn, buom yn edrych hefyd ar y trefniadau creu ffeiliau wrth gefn ar gyfer dwy system yn benodol, sef system yr Adran Theatrau sy'n system a gaiff ei lletya a'i rheoli'n lleol, a'r system PACS sy'n system genedlaethol a gaiff ei lletya yn y Bwrdd Iechyd. |

| Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer creu copïau wrth gefn o wybodaeth (Tachwedd 2013, 616A2013)<br>Yn 2013 daethom i'r casgliad ei bod yn ymddangos bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau annigonol neu rannol ar waith i sicrhau bod copïau wrth gefn o ddata'n cael eu creu | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| A oes trefniadau effeithiol ar waith i greu copïau wrth gefn o wybodaeth? | **System yr Adran Theatrau:**<br>Mae cronfa ddata system TOMS yr Adran Theatrau yn eistedd ar glwstwr o dri gweinydd SQL mewn trefn weithredol-oddefol. Caiff copi wrth gefn o'r gronfa ddata ei anfon bob dydd i brif rwydwaith ardal storio (SAN) safle Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae'r rhwydwaith ardal storio wedi'i gysylltu â gweinyddion creu ffeiliau wrth gefn mewn ystafell a pharth tân gwahanol. Caiff copïau wrth gefn o holl gynnwys y rhwydwaith ardal storio eu creu gan rithweinydd, ar ddisg i ddechrau ac yna ar dâp.<br>Mae'r manylion ynghylch creu ffeiliau wrth gefn/adfer, yng nghynllun adfer ar ôl trychineb system yr Adran Theatrau, yn cyfeirio'r darllenydd at y ddogfen/dogfennau sy'n ymwneud â chreu copi o gynnwys y gweinydd ac adfer y gweinydd. Nid ydym wedi gweld y ddogfen hon/dogfennau hyn, felly ni allwn gadarnhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig penodol yn bodoli ar gyfer y trefniadau creu ffeiliau wrth gefn ar gyfer TOMS. |

| Trosolwg o’r trefniadau ar gyfer creu copïau wrth gefn o wybodaeth (Tachwedd 2013, 616A2013) | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| A oes trefniadau effeithiol ar waith i greu copïau wrth gefn o wybodaeth? | **Y system PACS:**<br>Mae’r defnydd y mae’r Bwrdd Iechyd yn ei wneud o system PACS FUJIFILM yn rhan o gontract cenedlaethol sydd gan GIG Cymru â FUJIFILM, a reolir yn genedlaethol, er bod y system yn cael ei chyflunio’n lleol.<br>Mae prif gronfa ddata PACS yn rhedeg ar weinydd mewn ystafell weinyddion yn Ysbyty’r Tywysog Siarl. Mae gan safle Ysbyty’r Tywysog Siarl a safle Ysbyty Brenhinol Morgannwg set o weinyddion Delweddu Digidol a Chyfathrebu ym maes Meddygaeth (DICOM) ac mae dau weinydd VEEAM ar bob safle, gyda’r naill yn dyblygu’r llall. Mae’r gweinyddion VEEAM yn dyblygu’r ddau weinydd DICOM. Yn ogystal, mae’r brif gronfa ddata’n diweddaru gweinydd lleol ar gyfer adfer ar ôl trychineb, sy’n storio data’r pythefnos blaenorol, a phe bai trychineb yn digwydd gallai’r Bwrdd Iechyd gael mynediad i’r gweinydd hwnnw tra byddai’r system yn cael ei hadfer. Mae’r drefn hon yn darparu lefel briodol o gydnerthedd.<br>Mae’r gweithdrefnau creu ffeiliau wrth gefn yn dilyn polisi Cymru gyfan ynghylch creu ffeiliau wrth gefn, sy’n benodol i’r system. Nid ydym wedi gweld y rhain, ac felly ni allwn gadarnhau bod y dogfennau a’r gweithdrefnau priodol yn bodoli ar gyfer creu ffeiliau wrth gefn/sicrhau parhad systemau. Dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn fodlon bod lefel y dogfennau sydd ar gael iddo ynghylch ffeiliau wrth gefn/gweinyddion yn foddhaol.<br>Ar ôl symud ac uno (y ddwy system sydd ar waith ar hyn o bryd) i RADIS, a oedd i fod i ddigwydd ym mis Medi, mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu dyblygu’r gweinyddion PACS yng Nghanolfan Ddata Blaenafon, er mwyn sicrhau rhagor o gydnerthedd. |
| A oes gwaith monitro perfformiad effeithiol yn digwydd yng nghyswllt y modd y caiff copïau wrth gefn o wybodaeth eu cwblhau? | **Mae’r gwaith o fonitro perfformiad y modd y caiff copïau wrth gefn eu cwblhau yn ddigonol, ac mae’n dibynnu ar systemau TG yn hytrach na gwiriadau anawtomataidd.**<br>Mae cyflawnder a chywirdeb ffeiliau wrth gefn ar gyfer system TOMS yr Adran Theatrau yn dibynnu ar y ffaith bod y system TG yn gweithio’n gywir, a cheir sicrwydd ynghylch hynny o reolwr tasgau meddalwedd Commvault. Ni chaiff gwiriadau anawtomataidd, hy gwiriadau o gyflawnder y ffeiliau wrth gefn, eu cynnal.<br>Yn achos system PACS FUJIFILM, mae’r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar y ffaith bod y system yn wasanaeth a reolir, a bod y cyflenwr yn cymryd camau priodol i fonitro perfformiad y gweinyddion a’u prosesau dyblygu. Dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y cyflenwr yn cynnal y gwiriadau rheolaidd hyn mewn gwirionedd. |

## Mae trefniadau llywodraethu Caldicott wedi'u cryfhau ac mae dulliau hyfforddi wedi'u gwella, ond nid yw'r hyfforddiant hwnnw wedi'i gwblhau eto gan rai aelodau perthnasol o staff

**Caldicott – Canfyddiadau allweddol asesiad strwythuredig 2012 (Rhagfyr 2012) ac Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013)**

| Meysydd a adolygwyd | Canfyddiadau |
|---|---|
| Yn 2012 buom yn ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod corff y GIG yn cydymffurfio â'r gofynion o ran cyfrinachedd gwybodaeth fel y maent wedi'u nodi yn llawlyfr Caldicott, a gwelsom fod:<br>Trefniadau rheoli'n bodoli a bod y Gwarcheidwad Caldicott yn darparu arweinyddiaeth, ond:<br>• bod bwlch rhwng timau corfforaethol a gweithredol (cymerodd y Bwrdd Iechyd gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r bwlch hwn, ar ôl ailstrwythuro);<br>• bod y trefniadau i gyflwyno'r rhaglen hyfforddiant a monitro cynnydd ar sail egwyddorion Caldicott yn anghyson ar draws safleoedd; a<br>• bod angen cryfhau goruchwyliaeth a sicrwydd trwy fonitro cynnydd, a sicrhau bod dolenni gweithredol yn gweithio. | **Timau corfforaethol a gweithredol**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r bwlch a nodwyd yn flaenorol rhwng y timau corfforaethol a gweithredol. Erbyn hyn mae cynrychiolwyr o'r pwyllgor cofnodion iechyd, hy Rheolwr y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Cofnodion Meddygol a Chleifion Allanol (neu unigolyn a enwebwyd) yn mynychu'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth.<br>**Goruchwyliaeth a sicrwydd**<br>Mae'r hunanasesiad Caldicott: Egwyddorion ar Waith (C-PiP) yn darparu adnodd y gall Arweinwyr Llywodraethu Gwybodaeth ac Arweinwyr Caldicott ei ddefnyddio i dynnu sylw at feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau, ac mae'n darparu meincnod ar gyfer gwerthuso cynnydd. Ers 2012, mae sgorau hunanasesiad y Bwrdd Iechyd wedi bod fel a ganlyn:<br>Mawrth 2012 – 78 y cant<br>Mai 2013 – 87 y cant<br>Ionawr 2014 – 63 y cant (ailadolygwyd yn dilyn argymhelliad adroddiad archwilio mewnol)<br>Medi 2014 – 84.26 y cant.<br>Nid oedd yr hunanasesiad C-PiP ar gyfer 2015 wedi'i gyflawni adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, a disgwylir y bydd yn cael ei gyflawni ac yr adroddir yn ei gylch wrth y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth erbyn mis Rhagfyr 2015. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd. Yr hyn sydd i gyfrif am yr oedi o safbwynt cynnal yr hunanasesiad yw'r ffaith bod y Bwrdd Cynghori ar Lywodraethu Gwybodaeth yn ystyried adolygu'r broses C-PiP gyfredol, a'r posibilrwydd y gellid mabwysiadu'r pecyn cymorth a ddefnyddir gan y GIG yn Lloegr. Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei asesiadau fel y bwriadwyd, nes y caiff wybod yn wahanol.<br>Caiff asesiadau C-PiP y Bwrdd Iechyd eu cyflawni gan y tîm llywodraethu gwybodaeth a'u cyflwyno i'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor Risgiau Corfforaethol hefyd yn gofyn am sicrwydd gan y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth ynghylch C-PiP. |

| Caldicott – Canfyddiadau allweddol asesiad strwythuredig 2012 (Rhagfyr 2012) ac Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013) | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| Polisïau/gweithdrefnau ar waith a bod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r angen i wella cysondeb:<br>• hyfforddiant i staff, yn enwedig hyfforddiant penodol i swydd a hyfforddiant diweddaru; a<br>dulliau o hysbysu cleifion ynghylch mynediad i wybodaeth amdanynt ac ynghylch y modd y caiff gwybodaeth amdanynt ei defnyddio (Ysbyty'r Tywysog Siarl). | Adroddir bob chwarter wrth y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth ynghylch dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n cynnwys dangosyddion ynghylch ceisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ceisiadau gan bobl i weld gwybodaeth amdanynt, y graddau y cydymffurfir â hyfforddiant, a digwyddiadau. Yn ogystal, mae'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddigwyddiadau llywodraethu gwybodaeth yr adroddwyd yn eu cylch o fewn y sefydliad ers cyfarfod blaenorol y Grŵp. Mae canllawiau ar waith i benderfynu a ddylid ystyried adrodd wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch achos o beryglu diogelwch gwybodaeth. |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall ei gyfrifoldebau o ran cyfrinachedd gwybodaeth ac mae gwybodaeth risg uchel ynghylch cleifion a staff wedi'i nodi, ond rhaid iddo sicrhau bod gwybodaeth arall y mae egwyddorion Caldicott yn berthnasol iddi'n cael ei chynnwys. | Y Cyfarwyddwyr Gweithredol neu'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth sydd fel rheol yn gwneud y penderfyniad terfynol, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.<br>Mae'r ddau aelod o staff sy'n cynorthwyo'r Gwarcheidwad Caldicott yn cyflawni asesiadau risg ar geisiadau i weld gwybodaeth bersonol adnabyddadwy, cyn i'r Gwarcheidwad Caldicott gymeradwyo'r ceisiadau. Ni chaiff unrhyw weithdrefn ysgrifenedig ffurfiol ei defnyddio i asesu'r risg, a nododd y staff a gafodd eu cyfweld y byddai'n anodd creu dull gweithredu a fyddai'n addas i bawb. Fodd bynnag, ystyrir mabwysiadu trefniadau mwy ffurfiol er mwyn ei gwneud yn bosibl i asesiadau risg gael sylw mewn modd unffurf, pryd bynnag y bo'n bosibl.<br>Cafodd polisi diogelu data ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Risgiau Corfforaethol a'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Tachwedd 2013. Cafodd archwiliad Diogelu Data ei gyflawni ym mis Ionawr 2014 gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn dilyn hynny, cafodd y Bwrdd Iechyd sgôr sicrwydd cyfyngedig ar gyfer y systemau sydd ar waith. O ganlyniad, cafodd y Tîm Corfforaethol gynllun gweithredu i'w symud yn ei flaen a'i ddiweddaru dros gyfnod penodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i roi'r camau gweithredu gofynnol ar waith, ond pan fyddant wedi'u cwblhau bydd llawer o'r camau gweithredu'n gwella trefniadau Caldicott y Bwrdd Iechyd ymhellach. |

| Caldicott – Canfyddiadau allweddol asesiad strwythuredig 2012 (Rhagfyr 2012) ac Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013) | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| | Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n treialu meddalwedd archwilio prosesau diogelu data ar ran Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, a fydd yn nodi lefelau o fynediad amhriodol i ddata ar systemau gwybodaeth penodol sydd gan y Bwrdd Iechyd. Erbyn diwedd 2015, bydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cysylltu'r system â'r system Cofnodion Staff Electronig (ESR), Myrddin (PAS) a Phorth Clinigol Cymru (a fydd yn cynnwys systemau eraill hefyd). Bydd y contract yn cael ei reoli'n ganolog gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, ond bydd achosion posibl lleol o beryglu diogelwch data'n cael eu monitro gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth ac yn cael eu dwyn i sylw uwch-swyddogion fel y bo'n briodol.<br>**Cysondeb hyfforddiant**<br>Mae Llywodraethu Gwybodaeth yn rhan o'r Fframwaith Hyfforddi Sgiliau Craidd. Yn ogystal â'r hyfforddiant a oedd eisoes ar waith yn ystod ein hadolygiad yn 2012, ceir pecyn e-ddysgu erbyn hyn ar gyfer hyfforddiant ynghylch Llywodraethu Gwybodaeth, sy'n cyfeirio'n benodol at Ddiogelu Data, Caldicott, Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Bersonol Adnabyddadwy. Mae pecyn e-ddysgu GIG Cymru yn rhan o'r hyfforddiant sydd ar gael, ac mae'n orfodol i bob aelod o staff y Bwrdd Iechyd ac i aelodau newydd o staff, ar draws pob safle. Ar hyn o bryd, 8.24 y cant yw ffigur y Bwrdd Iechyd ar gyfer cydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth. Er bod y ffigur yn ymddangos yn isel, esboniodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu fod y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol bod hyfforddiant wedi digwydd yn y gorffennol nad yw wedi'i gofnodi ar y system ESR sy'n cynhyrchu'r ffigur, ac nad yw'r ffigur felly'n adlewyrchiad cywir o'r graddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r gofynion. Mae'r Bwrdd Iechyd am allu rhoi darlun cywir o'r graddau y mae'n cydymffurfio â'r cymhwysedd, erbyn mis Awst 2016.<br>Mae'r staff i fod i gael hyfforddiant diweddaru ynghylch Llywodraethu Gwybodaeth bob dwy flynedd. Yn ogystal, bydd y Bwrdd Iechyd yn monitro'r graddau y cydymffurfir â'r hyfforddiant hwn drwy'r system ESR.<br>Roedd y dystiolaeth a gawsom yn cynnwys taflen sy'n egluro Egwyddorion Caldicott. Mae'n cyfeirio at y Gwarcheidwad Caldicott fel y Cyfarwyddwr Clinigol, ond ar y dudalen nesaf mae'n cyfeirio at y Cyfarwyddwr Nyrsio. Dyma enghraifft o'r anghysondebau y dylid mynd i'r afael â nhw yn nogfennau'r Bwrdd Iechyd. |

| Caldicott – Canfyddiadau allweddol asesiad strwythuredig 2012 (Rhagfyr 2012) ac Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013) | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| | **Hysbysu cleifion**<br>Mewn ymateb i adroddiad archwilio mewnol 2013 ar Caldicott, dywedodd y Bwrdd Iechyd fod y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi dosbarthu taflenni gwybodaeth i ardaloedd cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd. Nid ydym wedi ymweld â phob un o safleoedd y Bwrdd Iechyd, yn rhan o'r adolygiad hwn, er mwyn cadarnhau hynny.<br>Mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn cynnwys tudalen sy'n dwyn y teitl 'Gwybodaeth i Gleifion ac Ymwelwyr'. Mae fersiwn Saesneg y dudalen hon yn cynnwys dolenni cyswllt ar gyfer y taflenni canlynol: cyfrinachedd (sy'n disgrifio pa wybodaeth am gleifion y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chasglu, sut y caiff ei defnyddio, a phwy a all ei gweld), diogelu data, a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae sgorau C-PiP y Bwrdd Iechyd i'w gweld ar ei wefan hefyd.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system ddarlledu fewnol (setiau teledu) yn adeiladau'r Bwrdd Iechyd, a reolir gan y tîm cyfathrebu, a fydd yn cynnwys fideos am lywodraethu gwybodaeth a chyfrinachedd gwybodaeth. Bydd hynny'n helpu i roi gwybod i aelodau'r cyhoedd sut y mae gwybodaeth bersonol amdanynt yn cael ei defnyddio a'i gweld.<br>Mae sgorau C-PiP y Bwrdd Iechyd wedi'u cofnodi ar ei wefan. |

## Ceir nifer o fentrau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer ansawdd data, sy'n cynnwys rhaglen archwilio ansawdd data, adroddiad blynyddol a chamau i ychwanegu aelodau allweddol o staff, ond mae angen gwella rhai trefniadau llywodraethu

**Ansawdd Data – Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013)**

| Meysydd a adolygwyd | Canfyddiadau |
|---|---|
| A geir adroddiad blynyddol ynghylch ansawdd data i ddarparu sicrwydd ar lefel y sefydliad, sy'n ymdrin â'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau ansawdd data ac sy'n ymdrin ag effeithiolrwydd y trefniadau? | **Mae adroddiad blynyddol ar gael ynghylch ansawdd data, y gellid ei gryfhau yn y dyfodol trwy alluogi cymariaethau â pherfformiad y flwyddyn flaenorol.**<br>Mae'r adroddiad blynyddol yn disgrifio cyflawniadau'r Grŵp Llywio Ansawdd Data yn ystod 2014-15 a'r risgiau a'r heriau o ran gwella ar gyfer 2015-16. Ceir atodiad sy'n cynnwys crynodeb o'r archwiliadau ansawdd data cyfredol a gyflawnwyd naill ai gan y Rheolwr Cywirdeb Data neu gan aelodau eraill o'r timau Perfformiad a Gwybodaeth. Gellid cryfhau'r adroddiad drwy gynnwys cymariaethau â pherfformiad y flwyddyn flaenorol. Byddai hynny'n helpu i egluro pa mor dda y maent yn perfformio o safbwynt ansawdd data a byddai'n dangos a ydynt yn gwella ai peidio mewn gwirionedd.<br>Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y pwyllgor llywodraethu integredig a'r pwyllgor llywodraethu gwybodaeth. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd bwyllgor llywodraethu gwybodaeth, ond mae ganddo Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth. Nid yw'n glir pa un o'r pwyllgorau hyn sy'n cael yr adroddiad. Cafodd yr anghysondeb ynghylch y defnydd a wneir o'r enwau hyn ei nodi hefyd mewn dogfennau eraill a gafwyd yn rhan o'r adolygiad hwn.<br>Yn ogystal â'r diweddariad blynyddol, caiff dangosfwrdd perfformiad misol ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol, y Bwrdd Iechyd, a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae dangosydd ansawdd data wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ers mis Ebrill 2014, ond nid yw enghreifftiau diweddar o'r dangosfyrddau'n esbonio pam y cafodd pob dangosydd y sgôr a gafodd.<br>Yn ogystal, mae dangosfwrdd mis Mai 2015 yn cynnwys adran ar gyfer ansawdd data'n benodol, ond nid yw dangosfwrdd mis Gorffennaf 2015 yn cynnwys adran o'r fath. |

| Ansawdd Data – Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013) | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| A oes trefniadau llywodraethu digonol ar waith ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg ac ansawdd data? | **Nid yw trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn glir, er bod y polisi ynghylch ansawdd data'n cyfeirio at y fframwaith llywodraethu penodol ar gyfer sicrhau ansawdd data'r Bwrdd Iechyd.**<br>Er bod y polisi ynghylch ansawdd data'n dangos y strwythur llywodraethu penodol ar gyfer sicrhau ansawdd data'r Bwrdd Iechyd, nid oedd modd i ni gael diagram penodol i esbonio'r trefniadau cyfredol ynghylch y strwythur llywodraethu cyffredinol ar gyfer adrodd ynghylch Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.<br>Nid yw'r grŵp llywio Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (a sefydlwyd yn 2012) wedi cwrdd ers mis Rhagfyr 2014. Oherwydd nad yw swyddogaethau'r grŵp, a nodir yn ei gylch gorchwyl, wedi'u nodi'n swyddogol yng nghylchoedd gorchwyl grwpiau/pwyllgorau eraill y Bwrdd Iechyd, ceir perygl nad ydynt yn cael eu cyflawni. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gael sicrwydd bod materion sy'n ymwneud â Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn cael sylw priodol a digonol.<br>Mae Grŵp Llywio Ansawdd Data yn goruchwylio ansawdd y data ar bob un o'r systemau sydd ar waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ac mae'n cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Risgiau Corfforaethol, trwy'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth. Gwelsom fod adroddiadau'n ymwneud ag ansawdd data hefyd yn mynd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn ogystal â'r Bwrdd Gweithredol. Er y caiff y llwybr cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ei nodi yn y polisi ynghylch ansawdd data, nid yw wedi'i nodi yng nghylch gorchwyl y Grŵp Llywio Ansawdd Data.<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Llywio Ansawdd Data, oherwydd mae ei gofnodion ar gyfer mis Mehefin a mis Medi 2014 yn dangos bod llai na hanner yr aelodau sydd ar y rhestr yn y cylch gorchwyl yn bresennol yn y cyfarfodydd. Nodwyd hefyd bod rheolwyr cyfarwyddiaethau'n aml yn mynychu'r cyfarfodydd yn lle'r cyfarwyddwyr a bennwyd.<br>Cyn gadael y Bwrdd Iechyd, roedd y Pennaeth TGCh yn aelod o'r pwyllgor cofnodion iechyd.<br>Roedd disgwyl i gylch gorchwyl y pwyllgor gael ei adolygu ym mis Ebrill 2015, ond oherwydd nad yw hynny wedi digwydd byddai'n amserol adolygu'r ddogfen a sicrhau cynrychiolaeth ddigonol ar gyfer TGCh. |

| Ansawdd Data – Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013) | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| Ar gyfer pob system, a geir unigolyn a enwir sy'n gyfrifol am ansawdd data? | **Er bod y Bwrdd Iechyd wrthi'n llunio rhestr o berchnogion asedau gwybodaeth, nid oes gan bob system unigolion a enwir sy'n gyfrifol am ansawdd data.**<br>Mae cofrestr newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd ar gyfer asedau gwybodaeth, a bwriedir cwblhau fersiwn ddrafft erbyn diwedd mis Tachwedd 2015. Mae'r Pennaeth Systemau Clinigol yn creu ffurflenni casglu data ar gyfer pob un o systemau clinigol y Bwrdd Iechyd. Mae'r ffurflenni yn cynnwys manylion y perchnogion gwybodaeth ar gyfer pob system TG. Mae gwaith y Bwrdd Iechyd i lunio cofrestr asedau gwybodaeth yn rhan o ddull gweithredu tri cham; y cam 1af - Cofnodi gwybodaeth ar gyfer systemau clinigol ar lefel y Bwrdd Iechyd Prifysgol cyfan, yr 2il gam - Cofnodi gwybodaeth ar gyfer systemau ar lefel cyfarwyddiaethau, 3ydd cam - Cofnodi gwybodaeth ar gyfer systemau ar lefel timau adrannol.<br>Nid oedd rhai o ffurflenni casglu data'r gofrestr asedau gwybodaeth a welsom yn ystod yr adolygiad hwn yn cyfeirio at unigolion penodol fel y perchnogion gwybodaeth; yn hytrach roeddent yn cyfeirio at adrannau neu'n nodi eu bod yn 'anhysbys'. Oherwydd nad oes ganddo berchnogion asedau gwybodaeth sy'n unigolion a enwir, nid oes modd i'r Bwrdd Iechyd bennu cyfrifoldeb yn hawdd am ansawdd ei ddata.<br>Nid yw'n glir eto sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu sicrhau bod y gofrestr asedau gwybodaeth yn cynnwys y manylion diweddaraf bob amser. |

| Ansawdd Data – Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013) | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| A yw lefelau presenoldeb y staff yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn briodol, ac a yw ansawdd data yn eitem sefydlog ar yr agenda? | Mae ansawdd data'n eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth; ond mae angen gwella presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn.<br>Yn unol â chylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth, mae'r grŵp yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Risgiau Corfforaethol. Ei brif rôl yw:<br>• darparu cyngor amserol yn seiliedig ar dystiolaeth i'r Pwyllgor Risgiau Corfforaethol i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau a chyflawni ei gyfrifoldebau o safbwynt ansawdd a chywirdeb, diogelwch, a mynediad priodol i wybodaeth a defnydd priodol o wybodaeth (gan gynnwys gwybodaeth ynghylch cleifion a staff) er mwyn hybu'r gwaith o ddarparu gofal iechyd o safon;<br>• darparu sicrwydd i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Risgiau Corfforaethol ynghylch trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer creu, casglu, storio, diogelu, dosbarthu, rhannu, defnyddio a gwaredu gwybodaeth yn unol â'i amcanion a nodwyd; cyfrifoldebau deddfwriaethol, gan gynnwys monitro'r graddau y cydymffurfir â'r Ddeddf Diogelu Data sy'n cynnwys monitro ceisiadau gan bobl i weld gwybodaeth amdanynt a cheisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; ac unrhyw ofynion a safonau perthnasol a bennir ar gyfer y GIG yng Nghymru; a<br>• darparu cyngor a chymorth i'r Gwarcheidwad Caldicott er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei swyddogaethau'n briodol ac yn effeithiol.<br>Mae'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth wedi sefydlu'r grwpiau llywio canlynol:<br>• Grŵp Llywio Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (nad yw wedi cyfarfod ers mis Rhagfyr 2014)<br>• Grŵp Llywio Ansawdd Data.<br>Mae agendâu ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf yn dangos bod ansawdd data'n eitem sefydlog ar yr agenda a bod aelodau priodol o staff yn darparu diweddariadau.<br>Wrth adolygu logiau pwyntiau gweithredu'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth, gwelwyd bod y grŵp wedi gweithredu ar yr angen i adolygu diffyg presenoldeb mewn cyfarfodydd, yng nghyswllt y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Tachwedd 2013, gyda'r bwriad o wella presenoldeb erbyn mis Mawrth 2014. Ym mis Medi 2014, cydnabu'r grŵp fod presenoldeb wedi bod yn gwella a chafodd statws y pwynt gweithredu ei newid i 'wedi'i gwblhau'. Fodd bynnag, o adolygu'r pwyntiau gweithredu (sydd hefyd yn nodi presenoldeb yng nghyfarfod y grŵp) a oedd yn deillio o gyfarfodydd y flwyddyn ddiwethaf, nid yw'n ymddangos bod presenoldeb wedi newid yn sylweddol. |

| Ansawdd Data – Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013) | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| A yw'r Polisi Rheoli Ansawdd Data yn cyfeirio at y strwythur llywodraethu ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg ac yn cynnwys:<br>• defnydd o gofnodion gweinyddu cleifion;<br>• diogelwch a chyfrinachedd;<br>• codio clinigol; ac<br>• ansawdd data'r wybodaeth a ddefnyddir i adrodd ynghylch perfformiad wrth y Bwrdd?<br>Dylai'r polisi hwn gyfeirio hefyd at systemau clinigol a systemau busnes allweddol eraill, a dylai gael ei adolygu'n rheolaidd. | **Cafodd y polisi ynghylch ansawdd data ei ddiweddaru ym mis Ionawr 2013, ond mae angen ei ddiwygio ymhellach.**<br>Rydym eisoes wedi disgrifio'r diffyg eglurder ynghylch y strwythur llywodraethu cyffredinol ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn y Bwrdd Iechyd.<br>Nid yw'r polisi cyfredol ynghylch ansawdd data'n nodi pa mor rheolaidd y caiff y polisi ei adolygu na pha mor rheolaidd y dylai gael ei adolygu. Mae hefyd yn cyfeirio at y pwyllgor llywodraethu gwybodaeth, yn hytrach na'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth. |
| A oes rhaglen fewnol ar waith i archwilio ansawdd data ar gyfer meysydd gwybodaeth allweddol? | Mae rhaglen archwilio ansawdd data ar waith, a chaiff penderfyniadau yn ei chylch eu gwneud gan y Grŵp Llywio Ansawdd Data.<br>Yn ôl yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Ansawdd Data, bydd rhaglen waith y Grŵp Llywio Ansawdd Data yn parhau i fynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd ynghylch ansawdd data, a sicrhau bod unrhyw bryderon ynghylch ansawdd data'n cael eu cynnwys ac yn cael sylw yn y rhaglen archwilio ansawdd data.<br>Mae'r rhaglen archwilio wedi esblygu ers 2013, ac fel y dangoswyd yn yr Adroddiad Blynyddol ynghylch Ansawdd Data ar gyfer 2014-15, mae bellach yn cynnwys cyfanswm o 23 o archwiliadau'n ymwneud ag ansawdd data. Mae amlder y profion a gynhelir ar y data'n dibynnu ar y math o ddata a'r rheswm dros gomisiynu'r archwiliadau.<br>Er mwyn cynorthwyo i godio'r archwiliadau, mae gan y Bwrdd Iechyd glerc archwilydd codio cymwys erbyn hyn (ers 2014). |

| Ansawdd Data – Adroddiad Archwilio Blynyddol 2012 (Mawrth 2013, 147A2013) | |
|---|---|
| **Meysydd a adolygwyd** | **Canfyddiadau** |
| A gaiff camau gweithredu eu cymryd i fynd i'r afael â chofrestriadau PAS lluosog a chofnodion nad ydynt yn cynnwys rhif GIG? | Mae gweithdrefnau ar waith y bwriedir iddynt fynd i'r afael â chofrestriadau PAS lluosog a chofnodion nad ydynt yn cynnwys rhif GIG. Fodd bynnag, mae'n anodd asesu effeithiolrwydd y gweithdrefnau hyn.<br>Mae'r Adroddiad Blynyddol ynghylch Ansawdd Data ar gyfer 2014-15 yn esbonio bod tîm Myrddin yn cynnal nifer o adolygiadau o ansawdd data'n ddyddiol, yn wythnosol ac yn fisol, yn dibynnu ar yr eitem o ddata, er mwyn sicrhau bod y data a gedwir ar system PAS Myrddin o ansawdd digonol i gynorthwyo'r gweithgarwch y bwriedir i'r system adrodd yn ei gylch, hy cymariaethau misol ar gyfer cofrestriadau dyblyg, a rhifau GIG coll. Caiff y rhain eu monitro gan y Grŵp Llywio Ansawdd Data.<br>Mae'r adran cofnodion meddygol wedi cofnodi gweithdrefnau i esbonio sut y dylai aelod o'i staff ymdrin â'r broses o uno cofrestriadau dyblyg. Dylai'r gweithdrefnau ysgrifenedig alluogi staff y Bwrdd Iechyd i ymdrin â'r materion hyn mewn modd cyson.<br>Mae'r tîm Ansawdd Data yn darparu adroddiadau ynghylch meysydd data anghyflawn ac yn rhoi'r adroddiadau hynny ar SharePoint er mwyn i'r timau priodol allu cywiro unrhyw broblemau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru